

# 24. Y Bugail Ifanc

## CYMERIADAU

- MAM
- RUTH
- MARTHA
- REUBEN
- AARON – y bugail bach
- BUGAIL 1
- BUGAIL 2 – tad y plant
- BUGAIL 3 – brawd Aaron
- STORIŴR
- JOSEFF
- MAIR
- GŴR DOETH 1, 2 a 3
- ANGEL 1, 2 a 3
- YR ANGEL BACH
- LLU O ANGYLION

## GOLYGFA 1

Cartref ym Mhalesteina yng nghyfnod Iesu. Mae MAM yn paratoi'r bwyd ac mae RUTH yn ei helpu.

MAM: Wel, Ruth, mae'r bwyd bron iawn yn barod! Rhaid i ni fod yn sydyn heno. Mae Reuben eisiau mynd fyny i'r bryniau efo dy dad.

RUTH: Druan â Reuben. Dim ond ifanc ydy o 'dê? Pam mae angen iddo fo fynd i fyny i'r bryniau ei oed o? Mae hi'n tywyllu'n fuan yno hefyd tydi?

MAM: Wel, does 'na ddim fedra i ei wneud cariad! Fo 'di'r unig fachgen yn y teulu ac mae'n rhaid iddo ddysgu sut i gymryd gofal o'r praid rhyw ddydd. Mae dy dad yn mynd yn hen ac yn fwy blinedig. Mae'n rhaid i Reuben ddysgu er mwyn iddo fedru gofalu am y defaid pan fydd dy dad wedi marw.

RUTH: Dwi'n gwybod, Mam. Ond dwi dal yn meddwl ei fod o'n rhy ifanc. Yr unig beth – sut fydd o'n medru gweld yn y tywyllwch a sut ar y ddaear fydd o'n ffeindio'i ffordd at y defaid?

MAM: Paid â phoeni cymaint Ruth. Bydd ganddo fo lusern. Beth bynnag, fe fydd Duw, ein Tad, yn cadw llygad arno.

*[Mae'n edrych ar y bwrdd]*

Wel, gad i mi weld – rydyn ni'n barod rŵan. Wnei di alw ar y lleill os gweli di'n dda?

*[Mae Ruth yn mynd i'r ochr arall ac yn galw]*

RUTH: Martha, Reuben! Dowch, mae'r bwyd yn barod rŵan!

*[Mae RUTH yn troi'n ôl i'r ystafell ac fe ddaw'r ddau blentyn arall i'w dilyn]*

REUBEN: Mm ... mae arogl da 'ma Mam. Be ydy o? Dwi'n llwgu!

MARTHA: A finnau hefyd. Rydyn ni wedi cael gêm newydd dda ac roedd Ioan a Mair yn chwarae efo ni hefyd.

MAM: Go dda – wel, dewch yn eich blaenau, steddwch. Rhaid i ni fod yn eitha sydyn heno.

REUBEN: O, oes! Dwi newydd gofio, mae'n rhaid i fi gyfarfod Dad ar y bryniau. Ydy fy ffon fugail i'n barod, Mam?

MAM: Ydy, Reuben, a bwndel o ddillad cynnes i ti. Gei di gario nhw ar dy gefn. Ond bwyteuoch eich swper yn sydyn rŵan – y tri ohonoch chi. Steddwch yn sydyn rŵan.

MARTHA: Ia wir, brysiwch, dwi 'di llond bol clywed am Reuben yn mynd at Dad i'r bryniau i ofalu am y defaid 'na.

[*Mae'r plant yn mynd i eistedd ar fat gwellt wrth fwrdd isel*]

MAM: Un funud fach, os gwelwch yn dda blant ... cyn i ni ddechra, be am i Reuben ddiolch i Dduw am ein bwyd!

[*Plant yn ymgrymu tra bo REUBEN yn gweddio*]

REUBEN: Diolch Dduw, am bopeth a dderbyniwn gennynt ac am dy drugaredd Arglwydd. Amen.

[*MAM a'r plant yn dweud 'Amen'*]

MAM: Rŵan 'ta blant, brysiwch. Mae gan Reuben siwrnai hir o'i flaen.

MARTHA: Faswn i yn rhoi rhywbeth i gael bod yn hogyn er mwyn i minnau gael mynd hefyd. Tydi o ddim yn deg – yr hogia sy'n cael yr hwyl bob amser!

[*Mae'r plant yn dechrau bwyta ac mae'r llenni'n cau yn araf*]

## GOLYGFA 2

Cartref ym Mhalesteina. Mae MAM yn brysur ac yn siarad â hi ei hun.

MAM: Rŵan 'ta, gadewch i mi weld ... ffon fugail iddo ofalu am y defaid; dillad cynnes iddo wisgo; 'chydig o fwyd; llusern – ia, dyna ni, dyna'r cyfan dwi'n meddwl.

[*Mae'n mynd at y drws a galw*]

Reuben, Reuben, tyrd yn dy flaen!

[*Sŵn traed REUBEN yn rhedeg i mewn*]

REUBEN: Iawn, Mam! Dim ond deud ta-ta wrth Ioan oeddwn i. Fasa fo wrth ei fodd yn dod efo fi.

MAM: Tyrd yma rŵan, Reuben, a gwranda arna i. Cofia gymryd gofal mawr ohonot ti dy hun ar yr hen fryniau 'na. Clyma'r bwndel 'ma ar dy gefn – dyna ti.

REUBEN: Ond tydi o ddim yn drwm o gwbl.

MAM: Wel, da iawn. A dyma dy lusern a dy ffon fugail di. Rŵan 'ta, cyn ti fynd, fe ofynnwn i'r Tad Nefol ofalu amdanat ti. Be am i ti adrodd dy weddi hwyrol Reuben?

[MAM yn eistedd ar y gadair ac mae REUBEN yn penlinio wrth ei hochr]

REUBEN: O Dduw, gofynnaf i ti fy nghadw i yn dy ofal tyner a helpa fi i'th ddilyn bob dydd ac i wneud yr hyn sy'n iawn. Amen.

MAM: O'r gorau! Rwyt ti'n barod rŵan, tyrd, fe ddo i at y drws efo chdi.

[Mae MAM a REUBEN yn mynd at y drws]

MAM: Wel, am noson glir. Mae'r sêr yn disgleirio. Fe fyddi di'n gweld y llwybrau'n hawdd. Cofia fod dy dad a'i ffrindiau'n disgwyl amdanat ti ar ben y bryn uchaf y tu allan i Fethlehem.

REUBEN: Bydd popeth yn iawn, Mam. Peidiwch â mwydro, dwi wedi bod yno sawl tro o'r blaen! Hwyl rŵan.

MAM: [Yn galw, heibio'r lleni] Nos da, Reuben. Bydd Duw yn dy gadw di'n ddiogel! Nos da!

[Mae'r lleni'n cau]

### GOLYGFA 3

Mae'n dywyll fel y fagddu ym mhob man ac mae'r BUGAIL ifanc yn cerdded ar hyd ymyl y llwyfan – dim ond golau ei lusern sydd i'w weld. Miwsig i'w glywed yn y cefndir, miwsig sy'n addas i ddynodi tywydd garw. Gwelir golau arall ar y llwyfan.

REUBEN: Helô!

AARON: Helô. Ti sydd yna, Reuben?

REUBEN: Ie, ond pwy wyt ti? [Mae'n edrych yn agosach ar AARON] O, ti sydd yna Aaron. Be wyt ti'n neud yma?

AARON: Dwi ar fy ffordd i'r brynau ger Bethlehem. Mae'n praidd ni wedi tyfu ac mae angen help ar y bugeiliaid. Dwi ar y ffordd at fy mrawd.

REUBEN: Dyna lwc! Dwi'n mynd yno hefyd – mae 'Nhad yno. Dwi'n falch mod i wedi dy gyfarfod di rŵan. Mae'n noson wyntog tydi?

AARON: Ydy, ond mae'r awyr yn glir. Gawn ni gerdded gyda'n gilydd.

*[Mae'n dywyll unwaith eto, ond daw'r ddau olau at flaen y llwyfan a'r ddau'n cerdded ar hyd ymyl y llwyfan. Miwsig addas yn chwarae eto]*

#### **GOLYGFA 4**

Ar y bryniau y tu allan i Fethlehem. Mae'r BUGEILIAID yn gorwedd ar y glaswellt.

BUGAIL 1: O! Mae'n oer iawn heno.

BUGAIL 2: Ydy, ond mae'r awyr yn glir iawn. Ble mae Reuben erbyn hyn tybed?

BUGAIL 3: *[Yn sefyll ar ei draed ac yn edrych i'r pellter]*

Ie, tybed? Fe ddylai fod yma cyn bo hir!

*[Mae'n edrych allan am REUBEN]*

O! Dacw fo. Mae o'n dod fyny ochr y bryn acw, ond mae rhywun arall efo fo. Tybed pwy ydy o? Wel, wel! Aaron, fy mrawd ydy o!

REUBEN: Helô, Dad! Helô bawb! Rydan ni wedi cyrraedd o'r diwedd. Mae Duw wedi gofalu amdanon ni.

BUGAIL 3: Ydy, mae'r Arglwydd yn dda! Dewch yma i eistedd.

*[Yn sydyn, daw'r STORIWR ar y llwyfan a dechrau darllen sgrôl – Luc 2:8–14. Mae'n darllen yn bwyllog. Bydd yr olygfa yma wedyn yn cymryd ffurf meim. Mae'r ANGEL yn ymddangos ar yr amser priodol, ynghyd â LLU O ANGYLION, hynny yw Prif Angel – Luc 2:10–11, a'r Angylion i gyd – Luc 2:14]*

BUGAIL 1: Clod i Dduw! Ganwyd gwaredwr. Ond, ydan ni ei angen?

BUGAIL 2: Rhodd anfarwol Duw i ddynion!

BUGAIL 3: Dowch yn eich blaen! Awn ni i Fethlehem i weld y baban. Rhaid i ni beidio â gwastraffu amser.

REUBEN: O, dyma gyffrous! Dwi'n falch mod i wedi dod i fyny i'r bryniau.

BUGAIL 2: Dewch hogia! Fe gyrhaeddoch chi mewn pryd.

REUBEN: Dwi'n dod, Dad!

## GOLYGFA 5

CAROL: 'Preseb Bethlehem [2]', *Clychau'r Nadolig*.

JOSEFF: [*Yn arwain MAIR at y gadair*]

Tyrd, Mair, stedda i lawr yn y fan'ma – mae'r baban yn gyfforddus yn y preseb glân. Fe fydd o'n ddigon cynnes a diogel yma. Tydi o'n un del?

MAIR: O! Ydy wir, Joseff – mab Duw ei hun cofia. Iesu fydd ei enw – 'run fath yn union ag y deudodd yr angel wrthym ni.

JOSEFF: Sh ... sh ... gwranda! Be 'di'r sŵn 'na? Fedri di glywed rhywbeth Mair? Pwy sy 'na? Argol, criw o fugeiliaid sydd 'na! Tybed be ma' nhw isio amser hyn y nos?

[*Daw'r BUGEILIAID i mewn a chlywir miwsig yn y cefndir*]

BUGAIL 1: Helô! Dyma fo. Dyma'r baban Iesu. Rhodd Duw i ddynion. Edrych! Dyma fy nghôt i, cymer hi, fe fydd hi'n dy gadw di'n gynnes.

BUGAIL 2: Iesu, ein gwaredwr bendigedig! Dyma oen bach i ti Iesu. Dyma arwydd o fy nghariad tuag atat.

BUGAIL 3: Dyma fy ffon fugail – rhoddaf hi i ti Iesu. Fe'th wasanaethaf di trwy gydol fy oes.

AARON: Dyma fy llusern, Iesu – ti ydy goleuni'r byd.

JOSEFF: Diolch i chi ffrindiau am eich geiriau caredig a'ch anrhegion. Bydd Duw yn eich bendithio. Cofiwch mai hwn ydy gwir fab Duw.

BUGAIL 3: O, rydan ni'n gwybod hynny. Fe ddeudodd yr angylion hynny wrthym ni. Dyma nhw'n dod aton ni pan oedden ni ar ochr y bryniau yn gofalu am ein defaid. Daeth i'r byd i achub dynion rhag drygioni.

[*Cerddoriaeth yn canu a daw'r GWŶR DOETH i mewn*]

GŴR DOETH 1: Dyma fo, ffrindiau, y brenin ifanc y buom yn chwilio amdano – y baban Iesu. Dwi wedi dod ag aur iddo – gan fod Iesu'n fwy gwerthfawr na'r holl aur sydd yn y byd.

GŴR DOETH 2: Dyma fy rhodd i frenin y brenhinoedd! Dwi wedi dod â thus iddo. Fe ddaw ef â goleuni i'r byd.

GŴR DOETH 3: Myrr ydy fy anrheg i. Byddi di, un bach, yn dioddef llawer yn ystod dy oes fer.

MAIR: Diolch yn fawr i chi i gyd – rydach chi wedi bod yn garedig iawn. Ond, sut ddaethoch chi o hyd i ni?

GŴR DOETH 3: Dyma'r seren yn ein harwain yma. [*Daw'r grŵp o ANGYLION i mewn*]

ANGEL 1: Daw llu'r nefoedd yma i dy addoli, faban Iesu. [*Mae'n penlinio*]

ANGEL 2: Daw llu'r nefoedd yma i dy garu, faban Iesu. [*Mae'n penlinio*]

ANGEL 3: Daw llu'r nefoedd yma i dy foliannu, faban Iesu. [*Mae'n penlinio*]

ANGEL BACH: Dyma seren i ti, faban Iesu. Dwi'n dy garu di hefyd.  
  
[*Mae REUBEN yn gwthio ymlaen at y preseb*]

REUBEN: Ond be fedra i roi iddo fo? Does gen i ddim byd!

ANGEL: Gwrandda fugail ifanc! Be am i ti roi dy galon i'r baban Iesu?

REUBEN: Dyna syniad da. Dyma fy nghalon a fy holl gariad, faban Iesu.

CAROL: 'Sisialai'r awel fwyn', *Clychau'r Nadolig*.

## **DIWEDD**

